**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** **1af TACHWEDD 2017**

# RHAGLEN

## DATGAN BUDDIANNAU

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MEDI/HYDREF 2017**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU**

Derbyn adroddiad cynnydd ar fuddsoddiadau'r Cyngor (copi'n amgaeëdig).

**5. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI 2017 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2017/18**

Derbyn a chydnabod adroddiad cynnydd ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

**6. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – "AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU – CYNIGION DIWYGIEDIG"**

Derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) gan Gomisiwn Ffiniau Cymru ar y cynigion uchod (copi o'r cynigion ar gyfer yr etholaeth leol yn amgaeëdig). Mae'r ddogfen gyfan i'w gweld yn http://gov.wales/docs/bcw/policy/mapdata/2018review/170904revpropsfullrepen.pdf

**7. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – CYNIGION DRAFFT 2018**

Penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) ar newidiadau arfaethedig i'r lwfansau a fydd ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru o fis Ebrill 2018.

**8. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Ymhellach i Gofnod Rhif 10 y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 2017:

(i) Cydnabod bod Strategaeth Dinas y Rhyl wedi newid ei fformat gweithredol a'i bod bellach yn gweithredu gyda Bwrdd o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac nad oes angen cynrychiolydd ffurfiol bellach.

(ii) Cadarnhau'r Cynghorydd A.J. Rutherford fel cynrychiolydd penodedig y Cyngor Tref ar Fwrdd Prosiect Promenâd Cyngor Sir Ddinbych a phenodi cynrychiolydd ychwanegol o blith y Cynghorwyr Tref.

**9. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**10. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**11. DIGWYDDIAD GALA MAER CYNGOR TREF Y RHYL**

Penderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgeedig).

**12. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**13. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.